Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 12fed Ebrill 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.10pm

Presennol: Maer Colin Jenkins, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy, Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Cyng Fran Murphy, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid.

6755 / Ebrill / 06 Anfonebau i'w talu.

DEWIS (Cyfieithu cofnodion Hydref, Tachwedd)	£ 218.07
COSTAU YSGRIFENYDDOL (Postio)	£ 43.40
ADNEWYDDU TRWYDDED HYSBYSFWRDD AM 3 MIS	£ 5.00

Argymhellwyd i'r Cyngor Llawn y dylid adnewyddu'r drwydded hon o hyn ymlaen yn flynyddol o hyn ymlaen.

.6756 / Ebrill / 06 Gweddill y Cyfrifon

Cofnodwyd a **derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor.

LTC	CYFRIF CYFREDOL (31.3.06)	£ 13,371.54
LTC	CYFRIF CYNILO (31.3. 06)	£ 34,450.00
LTC	CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.3.06)	£ 1245.00

6757 / Ebrill / 06 Materion Ariannol Eraill.

1 Adroddiad ar y gyllideb y flwyddyn sy'n diweddu, Mawrth 31ain 2006.

Roedd y Swyddog Cyllid wedi paratoi adroddiad cynhwysfawr ar y gyllideb. Argymhellwyd y dylai'r adroddiad gael ei

i) Dderbyn
ii) Y dylid trosglwyddo'r eitemau canlynol drosodd i'r Arian Wrth Gefn ar gyfer dibenion penodol :

- Neuadd y Sir - £5912
- Yr Ardd Gymunedol - £ 3536

Dylid cael esboniad gan y Swyddog Ariannol yn y cyfarfod nesaf mewn perthynas â'r swm a wariwyd a'r grant a dderbyniwyd ar gyfer y prosiect treftadaeth.

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

2. Ystyried Goblygiadau o Gynnydd yng Nghyflog y Swyddog Technegol.

Yn absenoldeb y Swyddog Technegol penderfynwyd gohirio hyn tan gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid.

3. Ystyried Cytundeb Cynnal a Chadw Blynyddol ar gyfer Boiler Neuadd y Sir.

Doedd aelodau, mewn egwyddor ddim yn erbyn Cytundeb Blynyddol. Argymhellwyd y dylid gwneud penderfyniad wedi derbyn prisiau. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

6758 / Ebrill / 06 Gohebiaeth yn Ymwneud â Chyllid

Adroddiad gan Mr D. Thomas, adeiladwr, mewn perthynas â'r gwaith atgyweirio ar Simnai Neuadd y Sir. Amcangyfrif cost y gwaith atgyweirio oedd £865.00. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid gofyn i'r adeiladwr ymgymryd â'r gwaith. Roedd pawb o blaid.
Cytunwyd hefyd y dylid gofyn i Mr Thomas i wneud rhywfaint o fân waith atgyweirio sydd angen ei wneud y tu fewn i'r eiddo. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace bod angen chwilio am ddyfynbris er mwyn trwsio teils crib ar yr eiddo. Roedd pawb o blaid.

6759 / Ebrill / 06 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd ym marn y Cadeirydd yn fater brys, yn unol ag adran 100B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

1. Mae'r canlynol i'w gwahodd fel gwesteion y Cyngor yn y Cinio Blynyddol:
   CT Rhydaman – Maer a Cymar
   CT Cwmamman – Maer a Chymar
   CT Llanymddyfri - Maer a Chymar
   Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chymar
   Cynghorydd Sir Ieuan Jones a Chymar
   Clerc y Dref, Swyddog Cyllid, Swyddog Technegol
   Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Prosiect Neuadd y Sir. Mae'r tendrau ar gyfer y gwaith o wneud y newidiadau i'w derbyn erbyn 2pm ar Ebrill 26ain. Bydd eitem ar agenda cyfarfod o'r Cyngor Llawn y diwrnod hwnnw i ystyried y Tendrau a dderbyniwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk